

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Report to:** Cabinet

**Date of meeting:** 20 February 2024

**Title:** Consultation Report Document in relation to the proposal to amend the Language medium of the Foundation learning at Plascrug Primary School

**Purpose of the report:** The purpose is for Cabinet to consider the consultation report and approve the publication of the statutory notice.

**For:** Decision

**Cabinet Portfolio and Cabinet Member:**  
Councillor Wyn Thomas, Cabinet Member for Schools, Lifelong Learning and Skills

## **Introduction**

A formal consultation was undertaken between the 15 September 2023 and the 17 November 2023 on the proposal to amend the language of the Foundation Learning.

A total of 27 responses were received during the consultation of which 9 supported the proposal.

Following the publication of the statutory documents, a consultation report is attached which includes:

- A summary of the issues raised by consultees.
- Local Authority response by means of clarification of the concerns raised with supporting reasons.
- Estyn's response to the consultation.
- A response by the Local Authority to the Estyn report

## **Appendix A**

Consultation report including views by the School Council

## **Appendix B**

Estyn's response to the proposal

## **Appendix C**

Statutory Notice

If the proposal is approved by Cabinet, it must be published by way of a statutory notice.

The statutory notice must be published on a school day and the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 requires that anyone wishing to make an objection to a school organisation proposal has the opportunity to do so. To be considered as statutory objections, objections must be made in writing or by email and sent to the Local Authority before the end of 28 days beginning with the day on which the notice is published.

## **Appendix D**

Responses received during the consultation period.

### **Wellbeing of Future Generations:**

**Has an Integrated Impact Assessment been completed? If, not, please state why.**

Community, Welsh Language and Equality impact Assessments completed as part of the statutory consultation- [statutory-impact-assessment-plascrug.pdf](http://ceredigion.gov.uk/statutory-impact-assessment-plascrug.pdf) ([ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk))

### **Summary of Integrated Impact Assessment:**

**Long term:** Ensuring the long term sustainability of education in the community and ensuring a community of vibrant culture and thriving Welsh language. Giving pupils the opportunity to contribute towards the target set by Welsh Government to increase the number of Welsh speakers to a million by 2050.

**Collaboration:** Discussions with the Governing Body have taken place whilst developing the proposal. The final decision will be made by Cabinet. The consultation involves extensive engagement and involvement with pupils, staff, Governors and the community.

**Involvement:** The proposal was subject to a formal statutory consultation which included targeted stakeholder engagement.

**Prevention:** Concerns raised are responded to through continuous and clear engagement with stakeholders and partners throughout the planning and consultation period.

**Integration:** The Welsh language is central to the operation of Ceredigion County Council and its strategic objectives. Community integration is central to all schools, creating an environment that support culture, heritage and the Welsh language. It is anticipated that the proposal will have no negative impact.

### **Recommendation(s):**

**Members are requested to consider the following:**

- 1. To note the contents of the consultation report.**
- 2. To approve the publication of the statutory notice.**

### **Reasons for decision:**

**To approve the consultation response document and the publication of the statutory notice in line with the requirements of the School Organisation Code – 011/2018**

**Overview and Scrutiny:**

Presented to Learning Communities – Overview and Scrutiny Committee – 30 March 2023

**Policy Framework:**

The School Organisation Code – Welsh Government Statutory Code – 011/2018  
Welsh in Education Strategic Plan – 2022 -2032

**Corporate Well-being Objectives:**

Providing the Best Start in Life and Enabling Learning at All Ages

**Finance and Procurement implications:**

n/a

**Legal Implications:**

n/a

**Staffing implications:**

n/a

**Property / asset implications:**

n/a

**Risk(s):**

Failure to deliver the outcomes of the WESP 2022-32 if the proposal is not approved.

**Statutory Powers:**

School Organisation Code – Welsh Government Statutory Code – 011/2018

**Background Papers:**

n/a

**Appendices:**

Appendix A – Consultation report including views by the School Council

Appendix B – Estyn’s response to the proposal

Appendix C – Statutory Notice

Appendix D – Responses received during the consultation period

**Corporate Lead Officer:**

Clive Williams, Corporate Lead Officer: Schools

**Reporting Officer:**

Clive Williams, Corporate Lead Officer: Schools

**Date:**

9 January 2024

## **Atodiad A**

Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys y sylwadau a fynegwyd gan y Cyngor Ysgol

## Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Ymgynghoriad Ysgol Plascrug.

### Sylwadau o blaid

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor Sir
Bydd y newid yn cynyddu medrau dwyieithog disgyblion ac yn sicrhau cyfleoedd ehangach iddynt yn y dyfodol.	Nodwyd y sylw cefnogol
Bydd yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis, a fydd yn caniatáu i ddisgyblion gyfrannu at Gymru amlieithog.	Yn cytuno – mae bod yn gwbl ddwyieithog yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis.
Trochi yw'r unig ffordd o ddod yn rhugl ac mi fydd yn darparu cyfleoedd a sgiliau.	Nodwyd y sylw cefnogol
Mae hyn yn cefnogi diwylliant lleol ac yn annog dysgwyr i aros yn yr ardal.	Mae cadw pobl ifanc yn yr ardal yn flaenoriaeth sirol ac mae'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-2027 a Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028.
Mae hyn yn cefnogi'r nodau o ran y Gymraeg.	Nodwyd y sylw cefnogol
Angen cyllid priodol er mwyn llwyddo.	Bydd cyllid ar ffurf grant y Gymraeg a chymorth wedi'i ddarparu gan Athrawon Datblygu'r Gymraeg yn cael ei neilltuo i gefnogi'r cynnig.
Cymorth i rieni.	Bydd y gwersi Cymraeg ar gyfer rhieni'n parhau fel rhan o'r bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd adnoddau'n dal i gael eu rhannu â rhieni drwy blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr ysgol.
Defnydd o ddulliau addysgu cyfoes ac eang, e.e. celfyddydau creadigol a mynegiannol.	Nodwyd y sylw
Dylai'r Cyngor ystyried llwybr dysgu Cymraeg o oedran cyn-ysgol i'r 6ed dosbarth gyda dysgu galwedigaethol.	Nodwyd y sylw
Ail-eirio ar gyfer pob plentyn meithrin / tair oed	Nodwyd y sylw
Cynnig ffrwd cyfrwng Cymraeg ym Mhenglais ac uned drochi hwyr yno.	Nodwyd yr awgrym
Cymorth ar gyfer yr ysgolion pontio hyn.	Bydd y cymorth yn barhaus a chyson yn unol â'r cynlluniau datblygu.
Cefnogaeth lwyr i'r cynllun.	Nodwyd y sylw cefnogol.

Ffigurau cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth yn dangos bod myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ac wedi astudio trwy'r Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn gwaith lefel raddedig neu astudiaethau ôl-raddedig 6 mis ar ôl graddio na myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond heb astudio trwy'r Gymraeg, a myfyrwyr sydd ddim yn medru'r Gymraeg.	Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ddi-ddorol a nodwyd y ffeithiau.
Mae'r cynllun yn sicrhau tegwch ieithyddol	Nodwyd y sylw
Cam cychwynnol ddylai hwn fod a dylid ystyried symud gweddill yr ysgol ar hyd y continwmm	Bydd dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol.
Mae'r achos o safbwynt cefnogi datblygiad ieithyddol ac addysgiadol disgyblion y dyfodol yn un hollol gadarn	Nodwyd y sylw cefnogol.

### Sylwadau yn erbyn y cynnig

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor Sir
Hyd yn hyn, mae'r sir wedi darparu addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ar gyfer ei phlant, ar lefel cynradd ac uwchradd. Mae hyn wedi caniatáu i rieni ddewis cyfrwng addysg eu plant. Fodd bynnag, mae'n gwbl annerbyniol bod y sir yn ystyried ei bod hi'n briodol diddymu hawliau'r rhieni hynny sydd am weld eu plant yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg.	Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cael effaith gyfreithiol uniongyrchol ar gyfraith y DU mewn perthynas â hawliau dynol sydd wedi'u hamddiffyn dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Nid yw'r hawl i addysg yn Erthygl P1-2 yn cynnwys yr hawl i gael eich addysgu yn yr iaith a ddewisir gennych, dim hyd yn oed os mai'r iaith a ffefrir yw iaith gyntaf y plentyn. Mae'r hawl i addysg yn mynd cyn belled â sicrhau yr hawl i gael eich addysgu yn "un o'r ieithoedd cenedlaethol" yn unig, gyda'r Wladwriaeth â'r hawl i ddefnyddio'i disgresiwn yn gyffredinol os bernir bod yna fwy nag un "iaith genedlaethol" i ddewis ohonynt. Fel yr unig iaith gyda statws cenedlaethol yng Nghymru, mae'r Gymraeg, yn ddi-amau, yn "iaith genedlaethol" yma yng Nghymru at y diben hwn. Felly, pan fydd gwlad, fel Cymru, yn darparu addysg, mae gan ddysgwyr yr hawl i gael eu haddysgu yn o leiaf un o ieithoedd cenedlaethol y wlad honno, ond does dim hawl cyfreithiol i fynnu addysg mewn iaith

	<p>genedlaethol benodol. Lle bernir bod yna fwy nag un iaith genedlaethol, mae gan awdurdodau cyhoeddus, megis Ceredigion, ddisgresiwn cyffredinol o ran penderfynu pa un o'r ieithoedd cenedlaethol fydd y cyfrwng addysg o fewn rhanbarth neu ardal benodol. Nid yw dewisiadau ieithyddol, waeth pa mor gryf yw'r arddeliad, yn "argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol" at ddibenion Erthygl P1-2. Nid yw'r hawl i barch tuag at fywyd preifat a theuluol yn Erthygl 8 o'r ECHR yn gynnwys yr hawl i gael addysg yn eich iaith gyntaf.</p>
<p>Fel y gwyddoch, mae rhwng 3-8 oed yn gyfnod allweddol. Os bydd plentyn yn gwneud cynnydd sylweddol yn ystod yr adeg hon o'i fywyd mae ganddo siawns dda iawn o barhau i wneud cynnydd ardderchog yn ystod gweddill ei addysg. Mae'r holl ymchwil yn dangos beth mae synnwyr cyffredin yn ei ddweud, sef bod plentyn yn gwneud y cynnydd gorau posib os caiff ei addysgu yn ei famiaith. Yn anffodus, nid yw hyn yn flaenoriaeth i Gyngor Sir Ceredigion. Blaenoriaeth y Cyngor yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg serch yr ymchwil uchod ar ddatblygiad plant yn eu blynyddoedd cynnar.</p>	<p>Ym marn y Cyngor, nid yw'r polisi arfaethedig o drochi pob disgybl 3-7 oed yn y Gymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion sydd ddim yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc, waeth beth yw ei iaith, yn cael cyfleoedd cyfartal i dderbyn addysg o fewn ysgolion Ceredigion.</p> <p>Gall polisi sy'n canolbwyntio'n benodol ar y Gymraeg hyd at 7 oed gael ei gyfiawnhau'n wrthrychol fel un sy'n anelu at sicrhau bod yr holl ysgolion sy'n dibynnu ar yr Awdurdod Lleol (Wladwriaeth) yn addysgu yn yr unig iaith sydd â statws swyddogol yng Nghymru, gan nodi amcan polisi Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p> <p>Does dim egwyddor gyfreithiol sy'n gosod mandad i'r perwyl bod yn rhaid i blentyn bob amser gael ei addysgu yn ei iaith gyntaf i sicrhau "budd pennaf" y plentyn. Mi all rhiant fod â barn gadarn am yr iaith yr hoffent i'w plentyn cael ei haddysgu ynddi, ond does dim egwyddor gyfreithiol, wedi'i mynegi yn nhermau "budd pennaf" neu fel arall, sy'n gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol (Wladwriaeth) weithredu'n unol â'r dewis hwnnw.</p>

Mi fydd penderfyniad y cyngor, yn fy marn i, yn cael effaith andwyol sylweddol ar eu datblygiad a'u rhagolygon mewn bywyd.

Mae tystiolaeth ar gael ledled Cymru o lwyddiant trochi ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae miloedd o blant o gefndiroedd di-Gymraeg yn mynychu ac yn llwyddo o fewn y system addysg hon. Nid Cymraeg yw eu hiaith gyntaf. Mae lles pob disgybl yn hollbwysig a sylfaenol, waeth beth yw cyfrwng yr iaith a chefnidir y plant. Mae disgyblion difreintiedig yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn eu miloedd ledled Cymru. Nid yw eu deilliannau'n is na deilliannau plant tebyg o fewn y system addysg cyfrwng Saesneg. Mae mecanweithiau cymorth ar gael iddyn nhw, p'un ai ydyn nhw'n dod o gefndir di-Gymraeg ai peidio. Does dim tystiolaeth bod y Gymraeg yn niweidiol i blant, na'i bod yn cael effaith negyddol ar eu lles. Mae tystiolaeth helaeth o ymchwil rhyngwladol yn dangos bod system drochi'n llwyddo i greu siaradwyr iaith benodol os mai'r iaith honno yw'r cyfrwng dysgu.

Bydd y polisi arfaethedig hwn hefyd yn cael effaith sylweddol yn y gymuned ehangach. Mae Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn brin o staff, yn nhermau doctoriaid a nyrsys fel ei gilydd. Rydym yn dibynnu ar ddoctoriaid a nyrsys o dramor, sy'n darparu sgiliau a gofal arbennig ar gyfer ein cymuned. Mae llawer ohonynt yn dod i'r wlad hon gyda'u teuluoedd gyda'r bwriad o weld eu plant yn dod yn rhugl yn y Saesneg am mai Saesneg yw iaith ryngwladol y byd. Os yw eich plentyn yn rhugl yn, dyweder, Sbaeneg a Saesneg neu Punjabi a Saesneg, mi fydd ganddynt fantais enfawr yn y farchnad gyflogaeth yn nes ymlaen.

Os bydd doctoriaid neu nyrsys o dramor yn ystyried symud eu teulu i Gymru ac yn cael gwybod y bydd eu plant yn cael eu haddysgu'n orfodol trwy gyfrwng y Gymraeg os byddan nhw'n dod i Aberystwyth, ond os byddan nhw'n mynd i Sir Benfro neu i Went, dyweder, y bydd ganddynt ddewis o ran p'un ai ydy eu plant yn cael eu haddysgu trwy'r Gymraeg neu'r

Nid ydym yn cytuno bod unrhyw symudiad graddol tuag at fod yn gwbl ddwyieithog h.y. yn gallu i siarad Cymraeg a Saesneg yn mynd i atal unrhyw un rhag symud i Geredigion. Does dim rheidrwyd ar oedolion sy'n dod i fyw a gweithio yng Ngheredigion i siarad Cymraeg. Rydym yn gobeithio bod pobl yn gweld y budd a'r gwerth o allu siarad Cymraeg a Saesneg, os ydyn nhw'n penderfynu dod yma i fyw. Mae siarad dwy iaith (neu ragor) yn norm yn y rhan fwyaf o wledydd y byd. Yn ddiamau, byddai'r mwyafrif helaeth o bobl yn gweld gwerth yn y gymdeithas ddwyieithog ac amlieithog eithriadol sy'n bodoli yng Ngheredigion. Rydym yn derbyn nad yw'r Gymraeg yn iaith ryngwladol ond mae hynny'n wir am y rhan fwyaf o ieithoedd y byd. Nid ydym yn gweld pam y dylai'r ffactor honno fod yn rhwystr i ddisgyblion yng Ngheredigion a Chymru rhag datblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Nid y bwriad yw creu siaradwyr neu gymdeithas uniaith Gymraeg. Y nod yw

<p>Saesneg, ble, dybiwch chi, fyddan nhw'n dewis?</p>	<p>sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddysgu siarad Cymraeg a Saesneg.</p>
<p>Mae ffyrdd mwy effeithiol o annog disgyblion i ddysgu Cymraeg.</p>	<p>Mae'r awdurdod yn cydnabod yr angen am agwedd eang, amlweddog tuag at ddysgu Cymraeg. Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n canolbwyntio ar hanes a diwylliant Cymru, ochr yn ochr â dimensiynau rhyngwladol.</p>
<p>Materion logistaidd a materion recriwtio</p>	<p>Mae Deilliant 7 o'r ddogfen CSCA yn mynd i'r afael â materion staffio a chymorth i hyrwyddo'r Gymraeg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid ydym yn ystyried bod swyddi staff addysgu presennol yn ysgolion Ceredigion dan unrhyw fygythiad. Y nod yw cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pum aelod o'r staff addysgu wedi cwblhau'r cwrs Cymraeg Sabothol lefel canolradd yn llwyddiannus iawn yn ddiweddar a chawsant eu canmol am eu hyfedredd. Mae staff cymorth addysgu (13) hefyd wedi derbyn hyfforddiant datblygu'r Gymraeg ac maent yn parhau i wneud hynny i gwrdd â'u hanghenion hyfforddi.</p>
<p>ADY – gallu gwybyddol a dyslecsia</p>	<p>Does dim sail i'r honiad bod dysgu iaith yn cyfrannu at broblemau dysgu neu at ddyfodol sy'n brinnach o gyfleoedd. Mae tystiolaeth ryngwladol eang yn dangos bod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i unigolion. Fodd bynnag, bydd pob dysgwr yn cael ei gynorthwyo'n unol â'i allu a'i anghenion.</p> <p>Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi egwyddorion y Cod ADY ar waith fel y nodir isod, i sicrhau bod cymorth arbenigol yn cael ei gynllunio a'i ddarparu'n briodol i gwrdd ag anghenion y plentyn.</p> <p>Dyma egwyddorion sylfaenol y system ADY:</p> <p>(a) Gweithredu ar sail hawliau, gyda safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu berson ifanc yn ganolog wrth gynllunio a darparu cymorth; a chyda'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu berson ifanc yn cael eu galluogi i gyfrannu cymaint â phosibl i'r</p>

	<p>broses o wneud penderfyniadau, ac yn cael hawliau effeithiol i herio penderfyniadau ADY, y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a materion cysylltiedig.</p> <p>(b) Adnabod, ymyrryd ac atal yn gynnar pan nodir anghenion, a sefydlu darpariaeth ar y cyfle cyntaf, a phryd bynnag y bo modd, gan roi ymyriadau ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu.</p> <p>(c) Cydweithio ac integreiddio, gyda gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod ADY yn cael eu nodi'n gynnar, a bod cymorth priodol a chydlynol yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu disgwyliadau a chael profiadau a deilliannau positif.</p> <p>d) Addysg gynhwysol, gyda mwyafrif y plant a phobl ifanc gydag ADY yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn mewn addysg prif ffrwd, gan ddefnyddio dulliau lleoliad cyfan i fodloni anghenion dysgwyr ADY.</p> <p>(e) System ddwyieithog gyda phob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gyflenwi DDdY yn Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth cyfrwng Cymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynnydd yn y DDdY cyfrwng Cymraeg dros amser.</p>
<p>Plant o aelwydydd Saesneg eu hiaith a helpu gyda gwaith cartref</p>	<p>Ni ddylai rhieni/gwarcheidwaid fod yn bryderus os na allant siarad Cymraeg gyda'u plant. Does dim angen iddyn nhw allu siarad Cymraeg er mwyn gallu anfon eu plant i addysg drochi/ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gall rhieni/gwarcheidwaid helpu eu plant i siarad a defnyddio'r iaith. Yr ysgol fydd eu pwynt cyswllt cyntaf o hyd mewn perthynas ag addysg barhaus eu plant.</p> <p>Dylai'r ysgol allu cynorthwyo neu gynghori'r rhieni/gwarcheidwad ar y ffordd orau o helpu'u plant i gadw'u sgiliau Cymraeg. Os bydd rhieni/gwarcheidwaid yn annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â ffrindiau, brodyr neu chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu sy'n siarad Cymraeg,</p>

	<p>mi fydd hynny'n eu helpu i gadw'u sgiliau. Gall rhieni/gwarcheidwaid hefyd helpu eu plant drwy eu hannog i fynd i weithgareddau cyfrwng Cymraeg a gwyllo rhaglenni teledu Cymraeg, gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg, lawrlwytho apiau Cymraeg, a gall plant hŷn ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter yn Gymraeg. Y peth pwysig yw bod plant yn cael cysylltiad â'r iaith mor aml â phosib. Mae amryw o daflenni gwybodaeth, fideos ac adnoddau eraill ar gael i helpu disgyblion a rhieni. Gall rhieni/gwarcheidwaid gael mwy o wybodaeth a dolenni cyswllt i sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn Gymraeg ar Hwb (Llywodraeth Cymru) ac ar wefan Cyngor Ceredigion. Hefyd, yng Ngheredigion mae yna dîm o staff penodol ac arbenigol yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion, athrawon a chynorthwywyr addysgu gyda'r gwaith o gyflenwi adnoddau o'r radd flaenaf yn y ddwy iaith.</p>
<p>Lles disgyblion a'r effaith ar ddatblygiad llythrennedd a llafaredd</p>	<p>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus ledled Cymru (a enwir yn y ddeddf) yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn Awst 2017. Am y tro cyntaf, gosodwyd gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Un o amcanion allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. I gyrraedd y nod hwn, mae gofyn cynyddu'n sylweddol y nifer o ddisgyblion sy'n cael y cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg ar oedran ifanc ac yn yr ysgol, a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Dyma'r catalydd i nod Llywodraeth Cymru o gryfhau'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ffordd y cynllunnir y Gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn ein system addysg statudol yng Nghymru.</p>

	<p>Mae tystiolaeth ledled Cymru'n dangos llwyddiant trochi ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae miloedd o blant o gefndiroedd di-gymraeg yn mynychu ac yn llwyddo o fewn y system addysg hon. Nid Cymraeg yw eu hiaith gyntaf. Mae llesiant pob disgybl yn hollbwysig a sylfaenol, waeth beth yw cyfrwng yr iaith a chefnidir y plant. Mae disgyblion difreintiedig yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn eu miloedd ledled Cymru. Nid yw eu deilliannau'n is na deilliannau plant tebyg o fewn y system addysg cyfrwng Saesneg. Mae mecanweithiau cymorth ar gael iddyn nhw, p'un ai ydyn nhw'n dod o gefndir di-gymraeg ai peidio. Does dim tystiolaeth bod y Gymraeg yn niweidiol i blant, na'i bod yn cael effaith negyddol ar eu lles. Mae tystiolaeth helaeth o ymchwil rhyngwladol yn dangos bod system drochi'n llwyddo i greu siaradwyr iaith benodol os mai'r iaith honno yw'r cyfrwng dysgu. Mae'r Cyngor yn cytuno gyda Llywodraeth Cymru bod y Gymraeg yn perthyn i bawb, p'un ai ydyn nhw eisoes yn byw yma neu'n dod yma i fyw, felly mae dysgu'r iaith drwy dechneg drochi'n dod yn beth naturiol a phositif. Mae'r Cyngor o'r farn na ddylid ystyried iaith, a'i defnydd fel cyfrwng dysgu ac addysgu, fel ffactor negyddol, ond yn hytrach fel un positif mewn byd amlieithog.</p>
<p>Effaith ar amlddiwylliannaeth ac amrywiaeth</p>	<p>Mae'r Cyngor Sir o'r farn y bydd hyn yn cael effaith positif ar amrywiaeth ac amlddiwylliannaeth. Ni fydd iaith yr addysgu'n cael unrhyw effaith negyddol ar ddathlu amlddiwylliannaeth ac amrywiaeth ond yn hytrach, mi fydd yn atgyfnerthu ethos croesawgar cryf yr ysgol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.</p>
<p>Sgiliau'r Gweithlu Presennol. Faint o athrawon Cymraeg sydd ar gael a pha gymorth sydd ar gael?</p>	<p>Hyd yn hyn, mae'r gweithlu presennol wedi cael cymorth gyda'u datblygiad ieithyddol personol drwy gynlluniau Sabothol. Mi fydd hyn yn parhau, ac felly hefyd y broses o ddatblygu anghenion ieithyddol staff cymorth. Mae'r anghenion ieithyddol</p>

	<p>wedi'u nodi, ac wed'u cynnwys a'u cefnogi drwy gynllun datblygu Cymraeg yr ysgol, yn unol â'r categori pontio a gytunwyd ar gyfer yr ysgol.</p> <p>Bydd y tîm Cefnogi'r Gymraeg o fewn yr awdurdod hefyd yn parhau i gynorthwyo staff ac ysgolion gyda datblygiad y Gymraeg.</p>
Methu llenwi'r ffurflen yn ddiennw.	Roedd modd llenwi'r ffurflen yn ddiennw, ac mae enwau a chyfeiriadau wedi'u dileu at ddibenion y ddogfen hon.
Yn anhapus y bydd Ysgol Plascrug yn newid i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg iaith gyntaf	Cafwyd cefnogaeth lawn gan y corff llywodraethu i newid y cod categoraiddio i T2 o fis Medi 2023. Mae hyn yn golygu y bydd gan yr ysgol 10 mlynedd i symud ymlaen yn ieithyddol i gyrraedd statws categori 2 (o leiaf 50% o weithgareddau ysgol y dysgwyr, cwricwlaidd ac allgyrsiol, yn Gymraeg). Trwy drochi dysgwyr yn y Gymraeg o oedran ifanc iawn, mi fydd eu sgiliau o safon ymarferol a gweithredol uwch erbyn CA2.
Ymgynghoriad heb ei ddsbarthu'n eang.	Roedd yr ymgynghoriad yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a chafodd ei ddsbarthu i'r holl randdeiliaid perthnasol, ysgolion a chyrff llywodraethu, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol, am y cyfnod amser priodol, gydag estyniad pellach am bedair wythnos.
Ffrwyno diwylliant Saesneg	Nid bwriad y cynllun yw ffrwyno diwylliant Saesneg. Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n nodi y dylid canolbwyntio ar ddiwylliannau Cymru, yn ogystal â diwylliannau eraill o bob rhan o'r byd. Fel rhan o gymuned ddwyieithog ac o fewn Maes Dysgu'r cwricwlwm, mi fydd yna le i ddiwylliant a llenyddiaeth Eingl-gymreig.
Pryd a sut oedd yna gyfle i ddisgyblion gymryd rhan yn y broses ymgynghori?	Ymwelwyd â phob ysgol dan sylw a chymerwyd nodiadau o'r cynghorau ysgol etholedig. Ymwelwyd â Phlascrug ar Hydref 12fed 2023. Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi fel atodiad i'r ddogfen hon.
Ffrwyno'r Saesneg ac ieithoedd eraill, a fydd yn gwneud dim i'r ysgol na chydlyniad y gymuned ehangach.	Nid yw'r ymgynghoriad yn ffrwyno'r Saesneg nag unrhyw ieithoedd eraill, ond yn hyrwyddo tapestri ieithyddol y gymuned ac yn cynyddu sgiliau disgyblion. Nid yw cydlyniad cymunedol yn dibynnu ar, nac yn

	cael ei ddylanwadu gan gyfrwng iaith neu gategori ysgol.
Pam fod manylion ysgol gyfagos (Ysgol Gymraeg Aberystwyth) yn y ddogfen ymgynghori?	Mae hynny'n ofyniad dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
Pryderon na fydd Saesneg yn cael ei dysgu tan lawer yn hwyrach.	Mae ysgolion Cymraeg wedi llwyddo i drochi plant yn yr iaith ac yna cyflwyno Saesneg yn nes ymlaen heb gael unrhyw effaith ar safon eu Saesneg. Does dim tystiolaeth bod addysg drochi ac addysg ddilynol cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar allu plant i ddarllen Saesneg. Mae nifer o sgiliau darllen yn rhai trosglwyddadwy. Mae enghreifftiau o ysgolion yn defnyddio dulliau trochi ym mhob rhan o'r byd. Mae cryn dystiolaeth ar gael am ddulliau Canada o roi addysg drochi ar waith. Mae'n dangos bod angen i ddysgwyr gael eu haddysgu'n llawn yn yr iaith darged am ddwy i dair blynedd, i sicrhau bod eu cymhwysedd yn yr iaith yn cael ei ddatblygu'n ddigonol. Yna cyflwynir iaith arall. Dyma'r patrwm a ddefnyddir yng Nghymru. Mae'n golygu bod dysgwyr yn cael eu dysgu'n gyfan gwbl yn Gymraeg hyd at, ac yn cynnwys y flwyddyn ysgol pan mae mwyafrif y dysgwyr yn troi'r saith oed. Cyflwynir Saesneg fel pwnc tua diwedd y Cyfnod Sylfaen, ac fel cyfrwng addysgu i raddau amrywiol.
Plascrug yw'r unig ysgol sy'n cynnig gwersi Cymraeg i rieni.	Mae'r sir wedi cyfrannu'n ariannol at y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn Aberystwyth i sicrhau bod rhieni yr holl ysgolion pontio cynradd yn cael cyfle i dderbyn gwersi Cymraeg. Bydd y bartneriaeth waith hon gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg yn Aberystwyth yn parhau.
Cymorth ychwanegol i ddisgyblion o gartrefi lle na siaredir Cymraeg, ac a fydd adnoddau pellach ar gael?	Yn sgil y ffaith bod y prosiect hwn wedi'i dreialu yn Ysgol Bro Pedr ers 2020, mae adnoddau cynhwysfawr ar gael i'w rhannu.
Effaith ar dderbyniadau Prifysgolion	Mae'n anodd proffwydo'r effaith, os o gwbl, ar dderbyniadau Prifysgolion.
Bydd y cynllun yn gostwng cyrhaeddiad addysgol.	Does dim tystiolaeth yn dangos bod dwyieithrwydd yn gostwng cyrhaeddiad addysgol. Mae ymchwil rhyngwladol yn awgrymu bod dwyieithrwydd /

	amlieithrwydd yn cael effaith bositif ar gyrhaeddiad addysgol.
System drochi yn y Gymraeg wedi'i dyfeisio gan Gymru, a'i gwendid yw ei bod hi'n bopeth ond systematig? Beth yw'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer trochi?	Mae adroddiad thematig diweddaraf Estyn wedi cydnabod ei heffeithiolrwydd a'i dull systematig. Gweler uchod am drochi yng Nghnada a dull thematig Estyn.
Ansawdd yr addysgu – i ba raddau y mae athrawon Cymraeg yn athrawon da, a "bydd unrhyw un yn gwneud y tro" cyn belled â'u bod yn siarad Cymraeg.	Un rhan o statws athro cymwysedig yw'r gofyniad bod pob ymarferwr yng Nghymru'n datblygu ei sgiliau ieithyddol personol a rhai'r disgyblion yn yr ysgol. Mae'n ofynnol bod pob athro'n cyrraedd y safonau uchel hyn yn ystod ei hyfforddiant a'i yrfa.
Mi fydd hyd yn oed yn llai o amrywiaeth ymhlith athrawon ac yn arbennig athrawon o gefndiroedd/tras ethnig. Bydd hyn yn hyrwyddo agwedd ynysig, mewnbylg yn hytrach nag agwedd allblyg, agored.	Nid yw cynyddu sgiliau dwyieithog yn rhywbeth mewnbylg ond yn hytrach mae'n hyrwyddo meddwl agored ac empathi tuag at genhedloedd a diwylliannau eraill.
Does dim angen cynyddu'r ganran o blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg am for 73% ohonyn nhw'n gwneud hynny beth bynnag.	Mae Llywodraeth Cymru'n gosod targedau i bob Awdurdod Lleol eu cwrdd fel rhan o'i Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
Effaith ar yr economi a swyddi	Mae bod yn ddwyieithog yn cynyddu cyflogadwyedd ac mae'n anodd dirnad unrhyw effaith negyddol y bydd y cynnig hwn yn ei gael ar yr economi.
Agenda Ddiwylliannol Gul	Nod y cynllun yw gwella agweddau diwylliannol byw yng Ngheredigion. Mae hyn yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Pa gymorth a roddir i newydd-ddyfodiaid i'r ardal?	Ar hyn o bryd mae'r sir yn rhedeg tair canolfan drochi ar gyfer disgyblion cynradd sy'n symud i'r ardal. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn Aberteifi, Felin-fach ac Aberystwyth.

### Ymateb Estyn.

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Sir
Eglurhad pellach ar effaith y cynllun o fewn meysydd megis addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.	Bydd yr effaith ar y meysydd a nodir yn cael ei fonitro fel rhan o brosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol.

	<p>Mae parhau i ddatblygu darpariaeth a safonau Cymraeg yr ysgol wedi'i nodi fel blaenoriaeth o fewn cynllun datblygu'r ysgol.</p>
Hyfforddiant staff	<p>Mae cydweithio positif a chyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau'r CSCA gyda'r Cynllun Cymraeg Sabothol wedi golygu bod mwy o leoedd ar gael ar gyrsiau addas/gofynnol. Gwnaed defnydd effeithiol hefyd o grant Trochi LIC i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff cymorth.</p>
Sut fydd y cymorth ychwanegol posib ar gyfer disgyblion gydag ADY yn cael ei ddarparu pan fydd Cymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran y ddarpariaeth.	<p>Mae'r sir wedi ymrwymo i sicrhau na fydd hyn yn broblem drwy ei chynllun datblygu ADY.</p> <p>-Cynllunio plentyn-ganolog ar waith a byddwn yn cynllunio i gwrdd ag anghenion y disgybl unigol. Mae gweithredu ADY o 0-25 yn sicrhau adnabyddiaeth gynnar, cyn oed ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynllunio darpariaeth ac ymyrraeth briodol cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol. Bydd modd hyfforddi ac uwch-sgilio staff cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol.</p> <p>- Pob adnodd cefnogi ADY yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog (Canolfan Athrawon, hyfforddiant, rhaglenni ymyrraeth, llawlyfr, templedi, ac adnoddau cyfathrebu). Felly bydd pob adnodd cefnogi ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>- Mi fydd ALTE lefel 3 ac uwch yn ofynnol ar gyfer pob penodiad newydd. Os nad yw hyn yn bosibl mi fydd yn rhaid cael ymrwymiad i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o'r penodiad.</p> <p>- Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob aelod staff yn dilyn eu penodiad, yn ôl yr angen.</p> <p>- Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant gloywi iaith pellach i fireinio sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol yn ôl yr angen.</p>

**Cyngor Ysgol Plascrug (8) 6 o'r grŵp yn amlieithog - yn siarad hyd at bedair iaith, gan gynnwys dysgu Cymraeg.**

1. Pawb yn deall y cynnig.
2. Mae barn y plentyn yn bwysig, canfod bod dysgu Cymraeg yn bwysig ar gyfer gwaith pan maent yn hŷn, mwy o gyfleoedd. Hefyd, pawb yn cytuno ei bod hi'n bwysig dysgu iaith arall am fod hynny'n arwain at fwy o ddewisiadau. Yn beth da i allu deall iaith a diwylliant y wlad maent yn byw ynddi, yn gwneud hi'n haws cyfathrebu â phobl yn y gymuned.
3. Ar amserau chwarae weithiau, gwersi Cymraeg, Eisteddfodau - Cŵn Actol, Llefaru., eisteddfod ysgol, Cymro Cymraeg yr wythnos, diwrnodau Cymraeg i ddathlu Cymreictod a Shwmae Sumae, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gwyl Dewi, Santes Dwynwen
4. Y rhan fwyaf yn dweud o bosib, ond byddent efallai'n dychwelyd i'w gwlad enedigol. Pawb yn cytuno os ydyn nhw'n aros yng Ngheredigion/Cymru ei bod hi'n bwysig siarad iaith y wlad maent ynddi.
5. Dysgu Saesneg - ym Mlwyddyn 3 - sut fydd hyn yn digwydd - trafodaeth am y broses - cynnydd naturiol oherwydd mi fydd nifer yn siarad Saesneg gartref ac yn clywed Saesneg o'u hamgylch - gweithio tuag at fod yn naturiol ddwyieithog.  
Cynorthwyo disgyblion wrth gyflwyno'r Gymraeg, defnyddio Saesneg. Y rhan fwyaf yn cytuno y byddai disgyblion yn ei chael hi'n haws dysgu Cymraeg petaent yn clywed yr iaith yn aml, yn enwedig ar oedran iau. Mae'n helpu i ddeall ieithoedd gwahanol.

## Atodiad B

Ymateb Estyn

## **Ymateb Estyn i'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen yn Ysgol Gynradd Plascrug**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig. Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

### **Crynodeb/Casgliad**

Mae Estyn yn cydnabod y symudiadau cadarnhaol y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oes gennym ddigon o wybodaeth i roi sylwadau ar effaith y cynllun heb fwy o eglurhad mewn meysydd, fel effaith y cynnig ar addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi cynnig rhesymeg addas ar gyfer yr ymgynghoriad, gan amlinellu'r rhesymau i'r cynnig ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen. Maent hefyd wedi cyflwyno rhesymeg briodol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad priodol o fanwl o'r cynnig ac amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu. Nod yr amserlen yw galluogi staff yn Ysgol Gynradd Plascrug i adeiladu'n systematig ar gaffaeliad disgyblion o ran y Gymraeg dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu ystod o fanteision ac anfanteision y cynnig hwn yn briodol. Prif fantais y cynnig hwn yw sicrhau mwy o degwch a chysondeb ieithyddol ledled y sir. Mae hefyd yn bodloni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru fel bod disgyblion yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan felly greu dinasyddion dwyieithog. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn nodi p'un a oes lleoliadau nas cynhelir yn yr awdurdod lleol, a ph'un a allai'r lleoliadau hyn gael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu nifer o risgiau ynghylch goblygiadau hyfforddi aelodau staff i safon a fydd yn eu galluogi i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent wedi mynegi pryder na fydd y cynllun Cymraeg sabothol efallai yn bodloni'r galw. Maent wedi nodi y bydd set medrau staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio'n llawn. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi cyflwyno camau lliniaru addas yn erbyn y risgiau posibl hyn.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod yn fwy heriol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n nodi y bydd yn ceisio sicrhau bod pob cam ymarferol yn cael ei gymryd i sicrhau cyn lleied o darfu ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â sut i ddiwallu'r angen posibl am gymorth ychwanegol fydd ei angen ar ddisgyblion ag ADY, efallai, pan fydd y Gymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran darpariaeth.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n deg na fydd unrhyw newid i drefniadau teithio presennol o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac yn ystyried y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion hyd at saith mlwydd oed. Maent wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cyn yr ymgynghoriad.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig hwn. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyllid i 0.5 athrawes feithrin CALI ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i'r ysgol ryddhau staff ar gyfer cynlluniau sabothol a hyfforddiant penodol.

### **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd a safonau a darpariaeth yn rhannol. Mae wedi cynnwys datganiadau ar safonau yn y Gymraeg o arolygiad diweddar Estyn ym mis Mehefin 2023. Mae'r adran hon yn fanwl ac yn amlinellu safonau cyrhaeddiad presennol yn y Gymraeg yn glir. Fodd bynnag, prin y mae'n cyfeirio at effaith bosibl y cynnig ar safonau yn y dyfodol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod dysgu sylfaen. Mae wedi nodi na ragwelir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar eu gallu i gyflwyno'r cwricwlwm mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth glir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae wedi amlinellu gweithgareddau cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid ac wedi tanlinellu pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles.

## Atodiad C

Rhybydd Statudol

**Hysbysiad Statudol i wneud newid a reoleiddir i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin**

**Gan**

**Gyngor Sir Ceredigion,  
Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan  
Rheidol, Rhodfa Padarn,  
Aberystwyth, Ceredigion, SY23  
3UE**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Ceredigion, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid **Ysgol Gynradd Plascrug, Abersywyth, SY23 1HL** fel y bydd cyfrwng y cyfarwyddid yn y Dysgu Sylfaen yn Gymraeg. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Ceredigion.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion ([www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)).

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2024**.

Bydd y cynnig yn ehangu cyfleoedd caffael iaith disgyblion ac yn cyflwyno ecwiti darpariaeth mwy cyson o fewn yr

**Statutory Notice to make a regulated alteration to a maintained community, foundation, voluntary or nursery school**

**By**

**Ceredigion County Council,  
Schools Service, Canolfan  
Rheidol, Rhodfa Padarn,  
Aberystwyth, Ceredigion, SY23  
3UE**

Notice is given in accordance with section 42 of the School Standards and Organisation Act 2013 and the School Organisation Code that Ceredigion County Council, having consulted such persons as required, proposes to alter **Plascrug Primary School, Aberystwyth, SY23 1HL** so that the language medium in the foundation learning is Welsh. The school is currently maintained by Ceredigion County Council.

Ceredigion County Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and Estyn's full response is available on Ceredigion County Council website ([www.Ceredigion.gov.uk](http://www.Ceredigion.gov.uk)).

It is proposed to implement the proposal on **1 September 2024**.

The proposal will expand pupils' language attainment opportunities and provides a more equal and consistent

ysgolion hynny sydd wedi eu pennu yn y categori Trosiannol 2\*.

Prif nod y cynnig yw adeiladu ar y dilyniant ieithyddol cyfredol. Mae'r datblygiad yn golygu, erbyn Medi 2024, y byddai polisi addysg cyfrwng Cymraeg ar waith ar draws y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Plascrug.

Dyma'r amserlen weithredu:

Dyddiad cychwyn	Blwyddyn Ysgol
Medi 2024	Meithrin
Medi 2025	Derbyn
Medi 2026	Blwyddyn 1
Medi 2027	Blwyddyn 2

Erbyn Medi 2028, byddai'r disgyblion Blwyddyn 3 yr ysgol â sail gadarn yn arbennig ar lafar a byddant yn medru adeiladu ar y sgiliau hynny tra hefyd yn datblygu eu sgiliau a'u haddysg trwy gyfrwng y Saesneg.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **29 Mawrth 2024**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion, Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE neu ebostio: [cysgaplascrug@ceredigion.llyw.cymru](mailto:cysgaplascrug@ceredigion.llyw.cymru)

Llofnodwyd:

Clive Williams

provision within schools that have been placed in the T2 category\*.

The main aim of the proposal is to build on the current linguistic progression. The development means that, by September 2024, there would be a Welsh medium education policy in place across the Foundation Learning at Plascrug School.

The implementation timetable will be as follows:

Start date	School Year
September 2024	Nursery
September 2025	Reception
September 2026	Year 1
September 2027	Year 2

By September 2028, the school's Year 3 pupils will have a sound foundation, especially orally, and will be able to build on those skills whilst also developing their skills and education through the medium of English.

Within a period of one 28 days of the date on which the proposal was published, that is to say by **29 March 2024** any person may object to the proposals.

Objections should be sent to: Corporate Lead Officer for Schools, Ceredigion County Council, Schools Service, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE or email: [wesplascrug@ceredigion.gov.uk](mailto:wesplascrug@ceredigion.gov.uk)

Signed:

Clive Williams

Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar  
gyfer Ysgolion  
Ar ran Cyngor Sir Ceredigion  
Dyddiad: 1 Mawrth 2024

[\\*https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf)

Corporate Lead Officer for Schools  
For Ceredigion County Council  
Date: 1 March 2024

[\\*https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/guidance-on-school-categories-according-to-welsh-medium-provision.pdf](https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/guidance-on-school-categories-according-to-welsh-medium-provision.pdf)

## Atodiad D

Ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

**From:**

**Sent:**

**To:**

**Subject:**

30 November 2023 16:49

Ceredigion language provision Comins Coch; Ceredigion language provision Plascrug; Ceredigion language provision Llwyny-Yr-Eos; Ceredigion language provision St Padarn

WESP Consultation

[Some people who received this message don't often get email from why this is important at <https://aka.ms/LearnAboutSenderIdentification> ]

To whom it may concern,

Apologies for the lateness of this email in relation to the consultation on changing the language of teaching at Plascrug, St Padarn's, Comins Coch and Llwyn yr Eos primary schools. I hope you are still taking comments.

As a bilingual Welsh - English speaker who uses both languages daily in my work and social life, I truly appreciate the value of the Welsh language. I moved to the area at the age of 9 and attended a Welsh medium primary school and have been grateful for this opportunity since.

Within my work role, I visit all of the primary schools in the Aberystwyth area on a regular basis to support staff and children.

However, I do not agree with the change of all schools within the Aberystwyth area to Welsh medium in the Foundation Phase. My reasons for this are as follows :

- Many of the families who register their children at the above 4 schools (Plascrug and St Padarn in particular) have moved to the area from different countries across the world. Their home languages vary from Arabic, Polish, Ukrainian, Igbo, Turkish and many others. Often their parents work in the local hospital and are contributing significantly to our local economy. If they do not have the option for an English - medium school for their children, will they move to the area? Or will this put them off doing so? Alongside this, some of these parents do not have English-language skills which allow them to help their children with homework as it is. By changing this to Welsh, you would be adding an additional barrier to this.
- These 4 schools are already incorporating a good level of Welsh into their day to day routines within the classroom, more and more so over the past 2 or so years and many of the children have a good level of basic Welsh by the end of year 1/2 which they can use in basic social interactions and beyond.
- There are excellent, experienced teachers within all of these schools whose level of Welsh language may not be sufficient to teach through it day to day. It is unfair to take quality staff away from children in the earliest, and crucial years of their education because of the language they feel confident teaching in.
- For children with Additional Learning Needs (particularly in relation to language and literacy) whose home language is English / any other language other than Welsh, the priority should be developing of their home language, which they can then build additional language(s) upon, if needed. By adding Welsh into the mix, you do add a layer of complexity and issues arise about which language they should receive Additional Learning Provision through. For children whose home language is Welsh, their parents will send them to one of the many local Welsh-medium primary schools available in the area.
- Choice - the beauty of the current system is that parents have a choice. They can choose whether they want their children to receive their education through the medium of English or Welsh. This, I feel, is a real advantage in our area and families appreciate this.

I hope you can take these points into consideration and that the parents within these schools have had / will have ample opportunity to share their thoughts too, not just in writing but in well-advertised discussion forums, where accessibility is taken into consideration (easy-read information, interpreters etc.)

Yours Sincerely,

[Redacted]

[REDACTED] (Clic 20/11/23)

To whom it may concern,

I apologise if this is the incorrect method to respond to consultations, but there are no clear instructions on your website that I could find, so I hope this finds its way to the correct addressee.

In regards to the proposal to make 5 primary schools Welsh medium, I do not support this and strongly recommend the council reconsider. As an educator for over 10 years in both Welsh and English schools, and as a parent of a three year old who is soon to begin primary school on one of these schools, I am concerned this enforced Welsh language medium will ultimately lead to issues with literacy and oracy skills, which should really be the main educational focus post covid.

I am Welsh, I can speak decent Welsh, but English is my first language and the most widespread language in the world, and still the most broadly spoken language in Wales and Ceredigion specifically. There are more effective ways to encourage children to speak Welsh through second language classes, cultural classes, and bilingual streaming which don't potentially isolate a large population of the students and run the risk of them being left behind because they are being taught through a language they don't know and that will not be reinforced at home for many.

